LG35 5.86

# MARWNAD
# MRS. JENKINS,
## Priod y Parch. E. C. Jenkins, Salem.

*Yr hon a fu farw Ebrill* 14, 1868.

Buddugol yn Eisteddfod Rhymney, Nadolig, 1868. Gwobr £5.

Mae Mrs. Jenkins dyner, hael ei gwedd
Yn awr yn gorphwys dan gysgodau'r bedd,
A'r awen nesa' gyda llygad llaith,
I dynu darlun o'i rhinweddol daith ;
Os gall yr ardal lle y megir un
Ro'i ei nodweddion a'i delweddau'i hun
Mewn argraff dwfn ar feddyliau dyn ;
Nid rhyfedd yw fod llaw lledneisrwydd mwyn
Yn gwau llawryfau heirdd, ac yn eu dwyn,
I wisgo'n cares ag anfarwol swyn.
Y Goitre hoff, cartrefle tawel hedd—
Lle'r erys symledd gwledig ar ei sedd,
Lle chwardd y mill a'r blodeu bob yn ail,
Lle chwery'r awel ar ei thelyn ddail ;
Ha! dyna'r fan fu'n foreu gartref hon,
Dan nawdd ei swynion sugnodd faeth i'w bron :
Yr ardal fythol-brydferth yma fu
I'i gwrthrych anwyl yn fagwrfan gu,
Fan yma teimlodd nawdd a gofal mam
Yn gaer o'i chylch, rhag rhuthrol lid a cham
Fan yma safodd fel palmwydden îr,
A'i gwraidd yn lledu mewn rhinweddol dir ;
Lle nad oedd trwst na godwrdd y gweithfeydd,
Yn difa mwynder y di-ail rodfeydd ;
Y laethferch glywai ar foreuol awr
Yn eilio'i chan i anerch gwrid y wawr,
A'r bugail serchog uwch y dawel fan,
Groesawai'r boreu ar y clogwyn ban ;
Ac adar fyrdd ar blethog gangau'r gwydd
Mewn llafarseiniau yn clodfori'r dydd,
Fan yma yn nghanol y fath fiwsig llon
Bu gwrthrych hawddgar yr alareb hon

X20 531 2485

Myn'd heibio wna'r awenydd
  Yn awr i foreu'r *ferch*,
I'w gwel'd yn plygn' ufudd
  O flaen hardd allor serch ;
Traidd dwysder drwy ei hanian—
  Trig gwylder ar ei gwedd,
Wrth ymgyflwyno'i hunan
  Yn wraig i *Genad Hedd.*

Ha ! dyna uniad dedwydd
  Oedd uniad dau fel hyn ;
Dan goron wen sacteiddrwydd
  I gynal bywyd gwyn ;
Un elfen a syniadaeth
  Yn rhedeg o'r ddau tu,
Hawdd gweled llaw rhagluniaeth
  Yn llunio'r cwlwm cu.

Argraffwyd yn ei chalon
  Elfenau dysg a dawn,
A rhinwedd a'i brydferthion
  O'i mhewn yn gronfa lawn
Parhaodd megys ffynon,
  O hyd yn fyw o ddw'r,
A blas ei ffrydiau gloewon
  Yn gysur byth i'w gwr

Mae'r afon weithiau'n chwyddo,
  A lleidiog fydd ei lli,
A'i thonau yn ymguro
  O gylch ei hochrau hi ;
Ond dw'r y ffynnon fechan
  O hyd yn bur a dardd,
Ac is ei llygad arian
  Ei gloewder byw a chwardd

Un felly oedd ein cares,
  Yn para'r un o hyd,
Holl gudd-feddyliau'r fynwes
  A gaem yn bur i gyd

W135560
1

Nid allai siomedigaeth,
Na gwenwyn cynen gas,
Byth droi'r fath ysbrydoliaeth
Yn wermod chwerw'i flas.

Wrth allor wen diwydrwydd
Gwarchodai gartre'n dda,
Gan ochel loes a thramgwydd
A phob chwedleuol bla,
Glanweithdra yn ei phabell
Gyfoda'i ddelw glaer,
A'i law yn mhob ystafell
Dangosai'i dlysau aur.

Dros fwy na deugain gauaf
Y creai wawl a gwres,
Ac aelwyd hoff ei chartref
Ddisgleiriai dan y tes;
Ei dwylaw diwyd beunydd
Tra'n gwneyd ei theulu'n llon,
Ddangosai blygion newydd,
Yn nghyfrol bywyd hon.

Dyferai'i geiriau mwynion
Falm cariad drwy ei thy,
Mor bur a mel-ddyferion
O gaerau'r gwynfyd fry;
Ei naws a'i ddwyfol sylwedd,
A lanwai'r aelwyd wen,
A theimlid llaw tangnefedd,
Yn symud uwch ei phen.

I'w gwr ei dawn a'i gofal
Drwy hyd yr yrfa faith,
Dan orthrymderau'r anial
Fu yn melysu'r daith;
Y mwynder lanwai'i hysbryd
A'r gwynfyd wisgai'i gwedd,
Droes lawer dydd o'u bywyd
Yn ddydd o lawen wledd.

Pan elai ef ar ofwy
  I ambell ymdaith bell,
I ddweyd am anchwiliadwy
  Oludoedd y "*Wlad well,*"
Eii delw oedd fel heulwen
  Yn gloewi'i ddelw e',
A'i gweddi a'i aaden,
  I'w ganlyn i bob lle.

Ar ol y daith luddedig
  'E wyddai'n dda fod un,
I'w dderbyn yn garedig,
  I'w aelwyd hoff ei hun;
Cyflawnder o serchogrwydd
  Groesawai genad Ior—
A gwenau caredigrwydd
  I'w gyfarch ar ei ddor.

Bu llawer un o'r Gweision
  Yn adfywhau ei fron,
Gan fwrw ei flinderion
  Dan gysgod aelwyd hon;
Bu rhin ei bwrdd arlwyol,
  A nawdd ei gwely clyd,
Yn gwneyd i'r natur ddynol
  Anghofio beichiau'r byd.

Gyda bod yn *briod* ffyddlawn
  Bu yn *fam* ragorol iawn,
Gwelid llu o blant cariadlawn
  Yn mwynhau o rin ei dawn;
Yn addurno'r fangre ddedwydd
  Bu rhai hyn yn moreu'u hoed,
Serch y fam a'i charedigrwydd
  Yma'n gylch o'u cylch a roed.

Dan ddylanwad ei rhinweddau
  Teimlai'r lluaws esmwythad,
Swyn ei chan a'i melus-eiriau
  Oedd yn fiwsig o fwynhad;

Yn y meddwl ieuanc hauodd
  Hadau pur, yn ngwanwyn oes,
A'i dueddfryd a gyfeiriodd
  Atachubol wae d ygroes.

Llfai hedd yn ffrwd o'i chalon
  Wrth wel'd ei phlanigion gwyrdd,
Dan fanerau Brenin Seion
  Yn arwisgo'r nefol urdd !
Ei harferion, a'i hesiamplau,
  Roddai ffydd a nerth i'r gwan,
A chydgordient gyda'i geiriau
  Yn y teulu—yn mhob man.

Mynych yr ehedai'i hysbryd
  O ddyfnderau cudd y fron,
I bellderau'r Gorllewin-fyd
  Dros y werydd—gwyn ei don :
Yno 'roedd ei *Frederick** anwyl
  Yn ngwylltineb ffrom y gad,
Lle na theimlai fwynder preswyl,
  Nawdd, na chysgod, mam a thad.

Twrf y milwyr glywid yno,—
  Dig elynion gledd yn ngledd,—
Swn magnelau fyrdd yn rhuo—
  Fflamiai digter yn mhob gwedd ;
Cofio fod yr un angylaidd
  Wasgai gynt i'w mynwes glyd,
Heddyw'n nghanol, eirf milwraidd
  Lethai'i henaid, wywai 'i phryd,

Er ochenaid ar ochenaid—
  Gweddi ar ol gweddi fry,
Er i'r dagrau lanw'r llygaid
  Angau yn ei ol ni thry ;
Syrthio wnaeth ei mab, er alaeth—
  Dewrder ar ei wedd yn fflam,—

---

*Frederick, ei Chyntaf anedig, yr hwn a fu farw yn Rhyfel Waedlyd America.

Gyrai'r newydd o'i farwolaeth
   Finiog saeth i fron ei fam.

Gwelodd eitha' siomedigaeth
   Yn ngobeithion gwag y byd,
Chwythodd anadl oer marwolaeth
   Drwy ei theulu lawer pryd ;
Wedi llafur, poen, a thrafferth,
   Sicrwydd bywyd dyn ni cha',
Gwywodd llu*o'i Cheinion prydferth
   Dan gwriadau 'r farwol chwa.

Llwyddodd dwylaw oerion angau
   I yru llawer saeth i'w bron,
Drwy ysbeilio'r addurniadau
   Oedd yn urddo aelwyd hon ;
Gwyddai 'n dda mai deddfwr union
   Oedd y Gwr yn Aberth gaed
Teimlai yn y "*dyfroedd dyfnion*,"
   Graig yr oesoedd dan ei thraed.

Yn foreu cafodd yr anfeidrol fraint
O blethu odlau gydag odlau'r saint,
A gaed yn Hanover† gynt yn fyddin gref,
Yn gloewi 'u harfau yn ngoleuni'r nef ;
Ei meddwl ieuanc yno'n ngwanwyn oes;
A lawn ireiddiwyd dan gysgodau'r groes,
Gorphwysai 'i henaid ar haeddiannau'r gwr
Fu iddi ganwaith yn gysgodol dwr ;
Rhag cael ei llethu dan flinderau'r daith—
Gan gur a 'stormydd yr anialwch maith,—
Dan heulwen gobaith a phelydron ffydd
Ei llwybrau loewodd hyd ei holaf dydd.

Yn ardal Salem am flynyddau res
Y teimlai'r lluaws ei nefolawg wres,
Ei lle yn wag ni chaffai fod i ni
Yn dyst didroi o'i hesgeulusdra hi ;

---

*Claddwyd saith eraill o'i phlant yn Monwent Salem.
†Derbyniwyd hi yn aelod yn Hanover yn y flwyddyn 1826.

O fewn pob oedfa safai'n golofn fyw
I chwyddo'r rhif, a chwyddo'r mawl i Dduw,—
I wrando'r bregeth—nerthu'r weddi daer,—
I'w hanfon adref at yr orsedd glaer,—
I dynu lawr o'r sypiau addfed sy'
Yn hulio byrddau teulu'r gwynfyd fry;
I geisio brasder i gryfhau y llu
Sydd eto'n teithio tua'r Ganaan gu.

Ei gair a'i chyngor, a'i grasusol dôn
Genedlai gariad yn ngysegrfa Ion.
Tangnefedd lifai drwyddi 'n elfen gref
A'i hysbryd oedd yn ysbryd pur y nef
Ac ymhyfrydai yn ei lwybrau Ef.
Mae ambell un yn mysg y *fintai* fawr,
Yn ymddisgleirio fel y wridog wawr;
Ond gartref cilia ei grefyddol sel
A'i holl ddylanwad idd ei ganlyn êl:
Duwioldeb hon oedd amlwg yn *mhob* man;
A'i sêl a deimlid yn cryfhau y gwan;
Ei gwres a lanwai gylch ei phreswylfeydd
A'i harogl daenid dros ei holl rodfeydd,
A thaflai ei gweithredoedd, yn ddigoll
Adlewyrch hyfryd ar ei bywyd oll;
Ei duwiol anian a gyneuai'n fflam,
A'i goleu daflai dros holl gylch y *fam*
Dros lwybrau'r briod y llewyrchai 'i gwawl
A'i holl rinweddai chwyddant fyth ei mawl.

Ei haul fachludodd—darfu rhawd y daith,
Noswyliai'n hyfryd wedi'r yrfa faith
Cysuron nefol—gwobrau bywyd gwyn
Ddyddanai 'i henaid yn nhywyllni'r glyn,
Anobaith pruddaidd i ddiddymdra ffoes
A'r ffydd yn fythol olwg iddi droes;
Ehedai i hysbryd heb frawychus ofn,
Uwch rhuog donau'yr Iorddonen ddofn.

O'i hol mae adwy—galar, trist a siom,
Aml deimlad drylliog—llawer calon drom,

Dros ei chynanedd taenir mantell brudd
A theulu'r fangre y'nt dan drymllyd nudd
Er fod ei henw yn ei mysg yn fyw,
Ei delw deg yn harddu 'r fan nid yw,
Rhy anhawdd ymlid hiraeth ar ei hynt
A dwyn i'r aelwyd y mwynderau gynt.

Trelŷn yn awr ni chenfydd wên y chwaer
Yn llathru'r ardal megis seren glaer
Cauedig heddyw yw'r agored law,
A gadwodd ganwaith gleddyf angen draw
Y llaw dywalltai falm i fron y claf;
Wnai auaf trymllyd iddo'n hyfryd haf
A'r fynwes hael a fu o'n cylch yn hir,
Yn troi nos adfyd yn oleuni clir ;—
I ddeiliaid helbul ar gyfyngaf awr
Ei gweled hi oedd gwel'd agoriad gwawr
Tynerwch rodiai hyd ei delwedd llon
A chydymdeimlad nythai yn ei bron
Ei hangau trist i'r holl gym'dogaeth fu
Yn angau oer i gymwynasau lu ;
Bu trymllyd ddydd ei hangladd hi ei hun
Yn ddydd i gladdu cysur llawer un:
Daeth torf o seintiau a chenadon hedd* (*30 *o Weinidogion*)
I ro'i ei llwch yn oer briddellau'r bedd ;
O'i chylch ar foreu "*adgyfodiad gwell*"
Bydd tyrfa *fwy*, pan ddaw o'i marwol gell,
I'w chroesaw gartref, i gael pur fwynhad
Ar fryniau claerwyn y dragwyddol wlad ;
Y wlad sy'n ddieithr i bob ysol wae,
Lle gwel ei hawddgar Brynwr fel y mae,
O'r Salem *isod* gwelai drwy y llen
Hardd dorf aneurif y Baradwys Wen,
Mae'r bur wreichionen wedi esgyn fry,
Caersalem *uchod* iddi 'n gartref sy.

(PATHOS)

GROESWEN. WM. COSSLETT,
(*Gwilym Elian.*)

J. Thomas, Argraffydd, Llyfr-rwymydd, &c., Tredegar.